OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2003 Rhif 139 (Cy.11)

Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) a (Gwasanaethau Fferyllol) (Diwygio) (Cymru) 2003

Wedi'u gwneud - -	*28 Ionawr 2003*
Yn dod i rym - -	*1 Chwefror 2003*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, wrth arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 29, 41, 42, 43 a 126(4) o Ddeddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977(**1**) drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

Enwi, cychwyn, dehongli a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) a (Gwasanaethau Fferyllol) (Diwygio) (Cymru) 2003 a deuant i rym ar 1 Chwefror 2003.

(2) Yn y Rheoliadau hyn—

"y Rheoliadau Gwasanaethau Fferyllol" ("*the Pharmaceutical Services Regulations*") yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) 1992(**2**);

(**1**) 1977 p.49; gweler adran 128(1) fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Gofal Cymunedol 1990 (p.19) ("Deddf 1990"), adran 26(2)(g) ac (i), a chan Ddeddf Iechyd 1999 (p.8) ("Deddf 1999), Atodlen 4, paragraff 38(2)(b), am ddiffiniadau "prescribed" a "regulations".
Cafodd adran 29 ei hestyn gan Ddeddf Iechyd a Meddyginiaethau 1988 (p.49), adran 17; a'i diwygio gan Ddeddf Gwasanaethau Iechyd 1980 (p.53), adrannau 1 a 7 ac Atodlen 2, paragraff 16(a); gan O.S.1985/39, erthygl 7(3); gan Ddeddf Awdurdodau Iechyd 1995 (p.17), Atodlen 1, paragraff 18 a chan Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gofal Sylfaenol) 1997 (p.46), Atodlen 2, paragraff 8.
Diwygiwyd adran 126(4) gan Ddeddf 1990, adran 65(2) a Deddf 1999 , Atodlen 4, paragraff 37(6).
Diwygiwyd adran 41 gan Ddeddf 1980, adrannau 1 ac 20(1) ac Atodlen 1, paragraff 53 ac Atodlen 7; gan OS 1985/39, erthygl 7(13); gan Ddeddf 1990, Atodlen 9, paragraff 18(1) ac Atodlen 10; gan Ddeddf Cynhyrchion Meddyginiaethol: Rhagnodi gan Nyrsys etc1992 (p.28), adran 2; gan Ddeddf 1995, Atodlen 1, paragraff 29 a chan Ddeddf 1997, Atodlen 2, paragraff 13.
Cafodd adran 42 ei hamnewid gan Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Diwygio) 1986 (p.66), adran 3(1); ei hestyn gan Ddeddf 1988, adran 17 a'i diwygio gan OS 1987/2202, erthygl 4; gan Ddeddf 1990, adran 12(3) a chan Ddeddf 1995, Atodlen 1, paragraff 30.
Diwygiwyd adran 43 gan Ddeddf 1980, Atodlen 9, paragraff 18(2); gan Ddeddf 1995, Atodlen 1, paragraff 31; a chan Ddeddf 1997, adran 29(1) ac Atodlen 2, paragraff 14.
Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adrannau 29 a 126(4) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999, O.S.1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf 1999, adran 66(5).

(**2**) OS 1992/662; 1993/2451 yw'r offeryn diwygio perthnasol.

"y Rheoliadau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol" ("*the General Medical Services Regulations*") yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) 1992(**3**).

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru yn unig.

Diwygio Atodiad 2 y Rheoliadau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol

2.—(1) Caiff Atodlen 2 y Rheoliadau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol (Telerau Gwasanaeth i Feddygon) ei diwygio yn unol â darpariaethau canlynol y rheoliad hwn.

(2) Ym mharagraff 43 (rhagnodi)—

(a) yn lle geiriau cyntaf is-baragraff (3), rhowch—

"(3) Where a doctor orders drugs specified in Schedules 2 to 5 to the Misuse of Drugs Regulations 2001(**4**) (controlled drugs to which regulations, 14, 15, 16, 18, 19, 20, 21, 22, 23, 24, 26 and 27 of those Regulations apply) for supply by instalments for treating addiction to any drug specified in those Schedules, he shall—";

(b) yn is-baragraff (5) (b) yn lle "other than a drug which is for the time being specified in Schedule 5 to the Misuse of Drugs Regulations 1985(**5**));" rhowch "other than a drug which is for the time being specified in Schedules 4 or 5 to the Misuse of Drugs Regulations 2001;";

(c) yn is-baragraff (6) (a), yn lle "other than a drug which is for the time being specified in Schedule 5 to the Misuse of Drugs Regulations 1985" rhowch "other than a drug which is for the time being specified in Schedules 4 or 5 to the Misuse of Drugs Regulations 2001;".

Diwygio Atodlen 2 y Rheoliadau Gwasanaethau Fferyllol

3.—(1) Caiff Rhan II o Atodlen 2 y Rheoliadau Gwasanaethau Fferyllol (Telerau Gwasanaeth i Fferyllyddion) ei diwygio yn unol â darpariaethau canlynol y rheoliad hwn.

(2) Ym mharagraff 3 (darparu gwasanaethau fferyllol)—

(a) yn is-baragraff (4), yn lle "the Misuse of Drugs Regulations 1985" rhowch "the Misuse of Drugs Regulations 2001";

(b) yn is-baragraff (6), yn lle "the Misuse of Drugs Regulations 1985", rhowch "the Misuse of Drugs Regulations 2001";

(c) yn is-baragraff (9) (b), yn lle "other than a drug which is for the time being specified in Schedule 4 or 5 to the Misuse of Drugs Regulations 1985", rhowch "other than a drug which is for the time being specified in Schedules 4 or 5 to the Misuse of Drugs Regulations 2001;".

(**3**) O.S.1992/635 y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r offeryn hwn.
(**4**) OS 2001/3998, a ddirymodd ddarpariaethau Rheoliadau Camddefnyddio Cyffuriau 1985 (OS 1985/2066), a'u hailddeddfu gyda diwygiadau.
(**5**) OS 1985/2066; a gafodd ei ddirymu a'i ailddeddfu gyda diwygiadau gan OS 2001/3998.